



CLEIENT/CLIENT :

Cyngor Sir CEREDIGION County Council


NODIADAU/NOTES

**KEY/ ALLWEDD:**

- Llwybr newydd arfethedig (red line)
- Llwybr presennol (blue line)

CYNLLUN DRAFFT

## Dadansoddiad yn ôl y math lwybr




## Nodau'r Prosiect

Nod y cynllun yw:
Creu cyswllt teithio llesol newydd rhwng Aberystwyth ac aneddiadau cyfagos Comins Coch, Penrhyn-coch a Bow Street lle bydd hefyd yn cysylltu â'r Orsaf Reilffordd newydd.

Cysylltu'r llwybrau cyd-ddefnyddiwr newydd a rhai presennol a osodwyd yn y blynyddoedd diwethaf rhwng Bow Street a Phenrhyn-coch gan ddilyn safonau cynllunio Teithio Llesol. Bydd hyn yn galluogi trigolion i wneud siwrneiau teithio llesol i'r gwasanaethau sydd ar gael yn Nhref Aberystwyth megis cyflogaeth, addysg, manwerthu a chyfleusterau hamdden.

Wrth weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth mi fyddan yn darparu cyswllt 'Campws i Gampws' rhwng Campws Penglais a Champws Arloesi a Menter newydd Aberystwyth (AIEC) ym Mhlas Gogerddan (IBERS).

Creu cyswllt seiclo a cherddwyr mwy diogel i Ysgol Gynradd Comins Coch lle rydym wedi gosod lloches feics newydd yn ddiweddar.

Darparu tua 3,199 metr o lwybr rhannu defnydd di-draffig newydd.

Plannu tua 689 metr o wrychoedd newydd a chloddiau lle nad oes un ar hyn o bryd ar y llwybr hwn i gynyddu bioamrywiaeth leol.

Cadw gwrychoedd presennol lle bo modd trwy drawsleoli.

Plannu 3 coeden newydd o amrywiaeth frodorol ar gyfer phob choeden a fydd angen ei thynnu yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r gwaith o dorri coed wedi'i gyfyngu cymaint â phosibl yn nyluniad y cynllun, sydd wedi llwyddo i helpu i gadw 2 goeden dderw sefydledig drwy gymryd y llwybr y tu ôl i'r rhain, gyda gwreiddiau'r coed i'w diogelu yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd canghennau o goed sydd wedi'u torri'n cael eu pentyrru i helpu i greu ardaloedd cynefin natur a bydd blychau adar ac ystlumod newydd yn cael eu gosod ar hyd y llwybr i helpu i gynyddu bioamrywiaeth ymhellach.

Gwella mynediad i Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol, er enghraifft llwybrau cerdded coetir Pwll Crwn a Gogerddan.

Bydd yr holl ddyluniadau'n cael eu cwblhau yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru er mwyn cydymffurfio â'u gofynion cyllid grant a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Bydd phob draen newydd yn cydymffurfio â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3.

| RHIF NO. | NEWIDIADAU MODIFICATIONS | GAN BY | DYDDIAD DATE | GWIRIWYD CHECKED |
|---|---|---|---|---|

YGC — CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNLLUN / SCHEME :
Linc Teithio Llesol Waunfawr i IBERS

TEITL LLUNIAD / DRAWING TITLE :
Cynllun Rhanddeiliaid - Trosolwg

| | | | |
|---|---|---|---|
| DARLUNWYD GAN : DRAWN BY : | ILT / RETJ | DYDDIAD DARLUNWYD : DATE DRAWN : | 26/05/23 |
| GWIRIWYD GAN : CHECKED BY : | WTL | DYDDIAD GWIRIWYD : DATE CHECKED : | 26/05/23 |
| Taflen Sheet | 1 o/of 4 | GRADDFEYDD : SCALES : | Dim i raddfa |

Rhif Lluniad Drawing No. 7522/MI/100 — CYWI REV A

09/06/2023 12:54:29 \\YGC.GWYNEDD.GOV.UK@SSL\DAVWWWROOT\PD\R7\7522\CDP - COMPUTER DESIGN PROGRAMS\AUTOCAD\MI\CLAWR DWG.DWG